# Adroddiad Archwilio a Throsglwyddo Blynyddol yr Awdurdod Goruchwylio Lleol

# 2013-2014

## Bwrdd Iechyd Lleol Betsi Cadwaladr

**ENW Julie Richards**

**Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl**

**Dyddiad 31.10.14**

# Cynnwys

1 Crynodeb Gweithredol……………………………………………….
2 Cyflwyniad……………………………………………………...
3 Canfyddiadau'r Archwiliad…………………………………………………..
4 Cynllun Cysgodi/Trosglwyddo Goruchwyliaeth wedi'i Ddiogelu at y Dyfodol ……...
5 Casgliad……………………………………………………….
6 Atodiadau……………………………………………………..

# 1 Crynodeb Gweithredol

**1.1** Sefydliadau mewn ardaloedd daearyddol yw Awdurdodau Goruchwylio Lleol (AGLl) sy'n gyfrifol am sicrhau y caiff goruchwyliaeth statudol o fydwragedd ei chyflawni'n unol â'r safonau a bennir gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth dan erthygl 43 Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, y mae ei fanylion wedi eu cyflwyno yn rheolau a safonau Bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012). Yng Nghymru, cyflawnir swyddogaeth yr AGLl gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ar ran Gweinidogion Cymru. Mae gan yr AGLl yng Nghymru ddau Swyddog Bydwreigiaeth AGLl a benodwyd i gyflawni swyddogaeth yr AGLl ar ei ran.

**1.2** Canolbwynt cyffredinol goruchwylio yn ystod y flwyddyn fu datblygu model goruchwylio diwygiedig a fydd yn galluogi'r AGLl a'r Byrddau Iechyd (BI) i gyflawni eu dyletswyddau statudol priodol. Y cefndir i'r angen am fodel goruchwylio wedi'i Ddiogelu at y Dyfodol yng Nghymru oedd nodi llawer o risgiau yn y model presennol yn ogystal â nifer gynyddol o ymddiswyddiadau a chaniatâd i fod yn absennol ymhlith Goruchwylwyr Bydwragedd nad oeddent yn gallu cydbwyso gofynion cynyddol y swyddogaeth goruchwylydd gyda rhai eu prif swyddi.

**1.3** Y cynllun gwreiddiol oedd rhoi'r model diwygiedig o oruchwyliaeth yng Nghymru ar waith ar 1 Ebrill 2014. Bwriad yr AGLl oedd y byddai adroddiadau archwilio'n cael eu cyhoeddi yn y mis Mai dilynol fel y gallent adlewyrchu'r sefyllfa gyfredol o ran goruchwyliaeth ym mhob BI yn ogystal â nodi'r materion i'w trosglwyddo a'r cynllun gweithredu i ddatblygu goruchwyliaeth. Mewn gwirionedd, yn dilyn sawl achos o oedi cyn ei roi ar waith, 4 Awst 2014 oedd diwrnod cychwyn y model a gyfrannodd wedyn at yr oedi cyn cyhoeddi'r adroddiad archwilio a throsglwyddo. Wrth gwrs, mae'r AGLl wedi parhau i weithio gyda Phenaethiaid Bydwreigiaeth a'r timau goruchwylio i sicrhau bod goruchwyliaeth bydwragedd wedi cael ei chefnogi'n briodol a'i darparu'n effeithiol yn ystod y cyfnod pontio.

**1.4** Diben yr archwiliad blynyddol yw asesu perfformiad Goruchwylwyr Bydwragedd o ran cyflawni'r swyddogaeth o oruchwylio ym mhob BI yn erbyn safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a gwneud awgrymiadau ar gyfer datblygiad pellach a gwelliant parhaus.

**1.5** Bydd yr adroddiad hwn yn cyflwyno'r sefyllfa o ran goruchwyliaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar adeg yr archwiliad yn gynharach eleni yn ogystal â'r statws cyfredol nawr bod y trosglwyddiad wedi'i gyflawni a bod y model diwygiedig wedi cael ei roi ar waith yn llawn. Bydd hefyd yn cynnwys y cynllun gweithredu hunanasesu a luniwyd gan Oruchwylwyr Bydwragedd yn rhan o'r broses archwilio ac a fireiniwyd ers hynny gan Oruchwylwyr Bydwragedd a benodwyd i'r model diwygiedig o oruchwyliaeth sydd bellach yn gyfrifol am ddatblygu

goruchwyliaeth i fod yn ddarpariaeth gwasanaeth o ansawdd uchel, prydlon ac effeithiol.

## 1.6 Trosolwg

Mae'r AGLI yng Nghymru wedi parhau i ddiwygio a mireinio'r broses ar gyfer archwilio gwasanaethau mamolaeth a luniwyd yn wreiddiol yn 2011-2012. Cynhaliwyd yr archwiliad cyfredol gan ddefnyddio dull tîm gyda mewnbwn gan gymheiriaid ac adolygwyr lleyg. Nod y broses archwilio oedd i dimau Goruchwylwyr Bydwragedd asesu eu cynnydd yn derbyn pob un o'r 17 safon a bennwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac i nodi ble'r oeddent yn credu roedd angen cymryd camau datblygu neu'r oedd argymhellion wedi cael eu gwneud yn flaenorol gan yr AGLI. Bydda'r cynllun gweithredu'n rhan o'r cynllun trosglwyddo o'r model Goruchwylwyr Bydwragedd presennol i'r Goruchwylwyr Bydwragedd Goruchwyliaeth Diogelu at y Dyfodol (FPS) fwrw ymlaen ag ef. Dangosodd yr archwiliad cyfredol hwn y bodlonwyd 65% (11) o'r meini prawf ar gyfer yr un deg saith o safonau a fesurwyd gyda thystiolaeth **GREF**, bodlonwyd 29% arall (5) gyda thystiolaeth **GREF/CYMEDROL** ac roedd dim ond 6% (1 safon) lle aseswyd bod y dystiolaeth yn **GYMEDROL** ac mae angen rhoi camau datblygu ar waith i gryfhau'r swyddogaeth oruchwylio.

Bydd Goruchwylwyr Bydwragedd BI AB a benodwyd i'r model diwygiedig o oruchwyliaeth yn gweithio tuag at ddarparu eu cynllun gweithredu fel y nodir yn adran tri i gefnogi'r broses o ddatblygu safonau yn ystod y flwyddyn. Bydd angen hefyd iddynt ganolbwyntio ar fynd i'r afael â materion a godwyd yn y cynllun trosglwyddo sydd i'w weld yn adran pedwar. Bydd bodloni'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAau) a nodwyd ym Manyleb Gwasanaeth Diogelu Goruchwyliaeth at y Dyfodol yn gwella ac yn dylanwadu ymhellach ar newid i arfer. Bydd cynnydd yn erbyn y DPAau yn cael ei fonitro drwy'r Grŵp Monitro a Gwerthuso a thrwy Grŵp Arweinyddiaeth Uwch AGIC. Bydd adroddiadau tri misol yn cael eu paratoi a'u rhannu gyda Phenaethiaid Bydwragedd i ganiatáu monitro pellach ac i fynd i'r afael ag unrhyw heriau penodol i gynnydd.

Mae'r AGLI wedi bod yn eglur o'r cychwyn mai nod y broses archwilio yw cefnogi datblygiad parhaus trwy ddenu adnoddau a hyfforddiant priodol yn ôl y gofyn. Rydym yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr o bob cwr o Gymru a thu hwnt i ail-ddylunio'r broses archwilio ar gyfer y flwyddyn nesaf gan ein bod o'r farn y bydd craffu allanol ar yr AGLI yn hanfodol nawr bod goruchwylwyr yn gweithio'n uniongyrchol i'r AGLI. Gobeithiwn y bydd personél Bwrdd Iechyd priodol yn manteisio ar y cyfle i fod yn rhan o'r broses archwilio fel ffordd o ddarparu'r sicrwydd angenrheidiol i wasanaethau mamolaeth, Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Bwrdd bod goruchwyliaeth statudol yn cefnogi amddiffyn y cyhoedd.

Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC maes o law yn **www.agic.org.uk**.

## 2 Cyflwyniad

**2.1** Disgwylir i Oruchwylwyr Bydwragedd weithio yn unol â set gyffredin o safonau i ymrymuso bydwragedd i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol gan wella'r broses o amddiffyn y cyhoedd. Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Goruchwylio Lleol (AGLI) gyflwyno adroddiad blynyddol ysgrifenedig i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i'w hysbysu am weithgareddau, materion allweddol, arfer da a thueddiadau sy'n effeithio ar wasanaethau mamolaeth yn ei ardal. Er mwyn hysbysu'r broses hon, bydd Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI yn cynnal archwiliadau o wasanaethau mamolaeth yn ei ardal.

**2.2** Mae'r broses ar gyfer archwilio safonau'r AGLI yn defnyddio dull hunanadolygu/adolygiad gan gymheiriaid yn erbyn holl safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac yna ymweliad archwilio gan dîm yr AGLI i wirio tystiolaeth a gyflwynwyd yn erbyn safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Roedd y tîm adolygu'n cynnwys Swyddog Bydwreigiaeth penodol yr AGLI, o leiaf un Adolygydd Lleyg yr AGLI a Goruchwylydd Bydwragedd profiadol o BI cyfagos. Mae hyn yn galluogi dull tîm o archwilio, yn cynnig cyfle ar gyfer adolygu a meincnodi gan gymheiriaid yn ogystal â chefnogi arfer da. Mae cynnwys adolygwyr lleyg yr AGLI yn y tîm yn sicrhau safbwynt y defnyddiwr trwy gydol y broses archwilio yn hytrach nag adolygwyr lleyg yn cynnal swyddogaeth archwilio ar wahân ac anghysylltiedig, fel yn y gorffennol, a chroesawyd hyn ar bob lefel.

**2.3** Cynhaliwyd yr ymweliad archwilio ar gyfer BI Aneurin Bevan (AB) ar 14 Ionawr 2014 fel y cynlluniwyd. Gwahoddwyd personél allweddol i fynychu yn ogystal â thîm goruchwylio'r BI (**Atodiad A - Rhaglen**). Hefyd, cynhaliodd Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI, wedi ei gefnogi gan Adolygydd Lleyg ac weithiau Swyddog Bydwreigiaeth, archwiliadau Pyramid tri misol yn rhan o'r cylch archwiliadau blynyddol. Darparwyd adroddiadau adborth unigol i'r Pennaeth Bydwreigiaeth yn syth ar ôl yr ymweliad gan nodi meysydd o arfer da neu godi ymwybyddiaeth lle'r oedd angen datblygiad.

**2.4** Cynhaliwyd yr archwiliad blynyddol gan Julie Richards, Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI, wedi ei chefnogi gan Oruchwylydd Bydwragedd profiadol, Sarah Spencer o Fwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, ac Adolygwyr Lleyg yr AGLI Jackie Foster a Lindsey Phillips.

**2.5** Dechreuodd yr ymweliad archwilio gyda chyflwyniad trosolwg cryno gan Julie Richards ac fe'i dilynwyd gan gyflwyniad PowerPoint gan y Goruchwylwyr Bydwragedd yn rhoi trosolwg o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a gweithgareddau goruchwylio, yn ogystal â llwyddiannau'r Goruchwylwyr Bydwragedd o ran arfer da. Hefyd, rhoddodd yr ymweliad archwilio gyfle i gyfarfod a rhannu gwybodaeth am oruchwyliaeth gyda'r Cyfarwyddwr Nyrsio, y Pennaeth Bydwreigiaeth, y Fydwraig Risg, Goruchwylwyr Bydwragedd, bydwragedd, bydwragedd dan hyfforddiant a defnyddwyr gwasanaeth (**Atodiad B – Mynychwyr**).

# 3 Canfyddiadau'r Archwiliad

## 3.1 Y ddarpariaeth o oruchwyliaeth effeithiol

Mae AGLI Cymru yn gyfrifol am benodi nifer briodol o Oruchwylwyr Bydwragedd i sicrhau bod gan yr holl fydwragedd sy'n ymarfer yng Nghymru fynediad at oruchwyliaeth. Mae Rheol 9[1] Rheolau a Safonau Bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn ei gwneud yn ofynnol nad yw'r gymhareb Goruchwylwyr Bydwragedd i fydwragedd yn fwy nag 1:15 fel rheol ond mae'n rhaid iddi, fel isafswm, adlewyrchu angen ac amgylchiadau lleol, heb beryglu diogelwch menywod.

O 31 Mawrth 2014, cyflogwyd 400 o fydwragedd ac 13 o Oruchwylwyr Bydwragedd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, gan roi cymhareb o 1:31. Arwydd oedd y gymhareb uwch hon o'r pwysau ar ddarpariaeth goruchwyliaeth ar y pryd, ond fe gafodd hyn sylw gan y Pennaeth Bydwreigiaeth, gyda rhagor o oriau amser llawn yn cael eu rhoi i Oruchwylwyr Bydwragedd. Cafodd y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd ei ehangu gan 20 diwrnod ychwanegol bob mis, gan roi cymhareb wedi'i haddasu o 1:15. Cafodd y tri Goruchwylydd Bydwragedd a oedd wedi'u pennu fel y rhai cyntaf i weithio ar y model newydd gefnogaeth wedyn i weithio'n amser llawn o fis Mai 2014 hyd at y dyddiad gweithredu ym mis Awst.

### 3.1.1 Penodi Goruchwylwyr Bydwragedd, dad-ddewis, ymddiswyddiad a chaniatâd i fod yn absennol

Yn ystod y flwyddyn archwilio, roedd naw Goruchwylydd Bydwragedd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn dad-ddewis eu hunain fel Goruchwylwyr neu cawsant ganiatâd i fod yn absennol am gyfnod estynedig. Cwblhawyd holiaduron gadael gan y Goruchwylwyr Bydwragedd hynny a oedd yn gadael y swydd, a'r prif reswm a roddwyd am ymddiswyddo oedd pwysau eu prif swydd neu'r angen i wella eu cydbwysedd cartref/gwaith. . Gweithiodd yr AGLI yn agos gyda'r Pennaeth Bydwreigiaeth a'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd y reoli pwysau cynyddol ymddiswyddiadau a chaniatâd i fod yn absennol ar lwyth gwaith Goruchwylwyr Bydwragedd.Cafodd adroddiadau rheolaidd SBAR eu diweddaru i gyfleu'r hyn a oedd yn digwydd ac i sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i gynnal goruchwyliaeth statudol.

[1] Rheolau a Safonau Bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012)

Parhaodd yr AGLl i gefnogi datblygiad parhaus Goruchwylwyr Bydwragedd (Rheol 8[2]) trwy weithdai lleol a digwyddiadau ymgysylltu, yn ymwneud yn benodol â'r model Diogelu Goruchwyliaeth at y Dyfodol (FPS). Gan fod ymchwiliadau goruchwylio'n faes o risg i'r AGLI, roedd y gweithdai lleol yn canolbwyntio ar wella sgiliau Goruchwylwyr Bydwragedd o ran ymchwilio ac ysgrifennu adroddiadau'n unol â Rheol 10[3]. Roedd pwyslais pellach ar gau'r bwlch rhwng adfer arfer bydwreigiaeth a dysgu gwersi ehangach yn brydlon. Rhoddwyd Gweithlyfr Ymchwilio manwl i Oruchwylwyr Bydwragedd a oedd yn cynnwys yr holl dempledi ac enghreifftiau angenrheidiol i'w cynorthwyo yn eu hymarfer. Yng ngoleuni'r model FPS sydd ar fin cael ei roi ar waith, gohiriodd yr AGLI y gynhadledd oruchwylio flynyddol gan drefnu i gynllunio digwyddiad ar gyfer 2015 a fydd yn cael ei hwyluso gan dîm o Oruchwylwyr Bydwragedd ar gyfer bydwragedd a'u dealltwriaeth o atebolrwydd proffesiynol.

### 3.1.2 Dulliau ar gyfer mynediad parhaus at oruchwylydd bydwragedd

Mae Rheol 9[4] yn nodi'r nodi'r gofynion ar gyfer goruchwylio bydwragedd ac mae'n ofynnol bod gan bob bydwraig Oruchwylydd Bydwragedd penodol y mae'n cyfarfod ag ef o leiaf unwaith y flwyddyn ar gyfer adolygiad goruchwylio blynyddol (ASR). Roedd gan Oruchwylwyr Bydwragedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gydymffurfiad parhaus o 100% o fydwragedd â Goruchwylydd Bydwragedd penodol neilltuedig trwy gydol y flwyddyn. Yn ystod 2013-14, roedd y gyfradd gydymffurfio â'r cyfarfodydd Adolygiad Goruchwylio Blynyddol yn 95% ar gyfartaledd ar draws y flwyddyn archwilio. Cafodd y ffigur hwn ei effeithio gan nifer y dad-ddewisiadau o Oruchwylwyr Bydwragedd yn y trydydd chwarter, gyda chyfraddau cydymffurfio yn syrthio o 98% i 91% yn y pedwerydd chwarter. Mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd wedi cyflawni a chynnal cyfradd gydymffurfio o 100% ers mis Mehefin 2014, ar ôl i dri Goruchwylydd Bydwragedd ddechrau gweithio'n amser llawn i Brifysgol Betsi Cadwaladr ym Mai 2014.

Mae'r AGLI yn annog ASRau i gael eu cwblhau'n electronig ac yna caiff y profformas eu storio ar y gronfa ddata AGLI genedlaethol. Dangosodd yr archwiliad o gofnodion papur gydymffurfiad cryf â'r safonau gofynnol ac roedd safbwyntiau bydwragedd o'r broses ASR yn gadarnhaol neu'n gadarnhaol iawn ar y cyfan. Roedd hyn yn cynnwys pan roeddent o'r farn bod y broses o werth ac os oeddent yn cael amser a phreifatrwydd priodol ar gyfer y broses. Mae monitro'r cydymffurfiad â'r broses ASR wedi bod yn elfen bwysig o baratoi ar gyfer gweithredu'r model FPS, gan sicrhau nad yw Goruchwylwyr Bydwragedd FPS yn etifeddu gwaith ychwanegol a bod cofnodion Goruchwylwyr Bydwragedd yn addas i'r trosglwyddo ac yn cynnwys gwybodaeth gyfredol a pherthnasol (gweler y cynllun trosglwyddo am

2 Mae Rheol 8 o Reolau a Safonau Bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012) yn gosod y gofyniad ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus fel goruchwylydd bydwragedd.
3 Mae Rheol 10 o Reolau a Safonau Bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012) yn nodi gweithdrefnau'r AGLI ar gyfer ymchwiliadau goruchwylio.
4 Mae Rheol 9 o Reolau a Safonau Bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012) yn nodi'r gofynion ar gyfer Goruchwylwyr Bydwragedd.

fanylion).

Mae Goruchwylwyr Bydwragedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gweithredu rota ar alwad 24 awr ar draws y Bwrdd Iechyd, ac mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn cylchdroi'r cyfrifoldeb o sicrhau bod mynediad at Oruchwylydd Bydwragedd ar gael i fydwragedd a menywod. Roedd yr archwiliad blynyddol o gyfraddau ymateb ar-alwad a gynhaliwyd gan Adolygwyr Lleyg yr AGLl ym mis Ionawr yn gadarnhaol iawn wrth i'r Goruchwylydd Bydwragedd ar-alwad ymateb o fewn dau funud yn ystod oriau gwaith arferol ac o fewn tri munud y tu allan i oriau.

Mynychodd Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl 75% o gyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwragedd misol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, i sicrhau cyfathrebu dwy ffordd eglur rhwng yr AGLl a Goruchwylwyr Bydwragedd ar bob agwedd ar y swyddogaeth oruchwylio. Roedd presenoldeb Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl hefyd yn cynnig cyfle i gynnig cyngor a chefnogaeth ychwanegol i Oruchwylwyr Bydwragedd o ran materion gwasanaeth a allai fod yn berthnasol i amddiffyn y cyhoedd yn ogystal â chaniatáu i'r AGLl oruchwylio Goruchwylwyr Bydwragedd yn cynllunio ac yn gweithredu eu cynlluniau gwaith blynyddol.

#### 3.1.3 Yr effaith ar oruchwylio bydwragedd sy'n gweithio y tu allan i wasanaeth mamolaeth

Ceir nifer o ymarferwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, fel BI eraill ledled Cymru, sy'n defnyddio eu cofrestriad bydwreigiaeth ond nad ydynt wedi'u cyflogi mewn swydd fydwreigiaeth yn uniongyrchol. Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, mae'r ymarferwyr hyn yn cael eu cyflogi fel Ymwelwyr Iechyd ond mae'n dal i fod angen Goruchwylydd Bydwragedd penodol arnynt er mwyn cydymffurfio â'r rheolau a safonau Bydwragedd (Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth). Penderfynodd Goruchwylwyr Bydwragedd y Bwrdd Iechyd reoli'r llwyth achosion ychwanegol trwy sefydlu goruchwyliaeth grŵp ar gyfer y cofrestrwyr hyn. Roedd hyn yn golygu y gallai Goruchwylwyr Bydwragedd reoli'r llwyth gwaith yn ogystal â darparu cefnogaeth cymheiriaid i grŵp o weithwyr proffesiynol a allai fod wedi eu hynysu o'r proffesiwn bydwreigiaeth fel arall gan eu galluogi i feincnodi eu gweithgarwch yn erbyn ei gilydd.

### 3.2 Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth mewn goruchwyliaeth

Ceir Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth (MSLC) hynod weithredol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac mae Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl wedi mynychu cyfarfodydd ar sawl achlysur i amlygu materion perthnasol yn ymwneud â goruchwyliaeth Yn fwyaf

diweddar, gwelodd y pwyllgor gyflwyniad am y model DGD ac am y ffordd y byddai menywod yn gallu cael mynediad at gefnogaeth Goruchwylydd Bydwragedd. Nid oedd cadeirydd y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaeth Mamolaeth yn gallu mynychu'r diwrnod archwilio blynyddol. Fodd bynnag, roedd y Goruchwylwyr Bydwragedd a bydwragedd yn cael trafodaethau gyda'r adolygwyr lleyg yn ystod yr ymweliad archwilio ynglŷn â rhannu safbwyntiau defnyddwyr am sut yr oedd goruchwyliaeth statudol wedi cefnogi menywod wrth gael mynediad at ofal mamolaeth yn y Bwrdd Iechyd.

Ymgysylltodd adolygwyr lleyg yr AGLl hefyd â menywod a oedd yn defnyddio gwasanaethau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ystod pob ymweliad Pyramid. Roedd yn siomedig darganfod, trwy gydol y flwyddyn, cyn lleied o ddefnyddwyr oedd ag unrhyw wybodaeth am oruchwyliaeth a'i ddiben neu a oedd wedi bod mewn cysylltiad â Goruchwylydd Bydwragedd i gael cyngor a chefnogaeth. Ar y llaw arall, gallai hwn fod yn ymateb cadarnhaol sy'n golygu bod y menywod hynny a welwyd gan yr adolygwyr lleyg yn fodlon gyda'r gofal iddynt ei dderbyn sef, bron yn ddieithriad, yr adborth a dderbyniwyd gan fenywod a'u teuluoedd. Roedd o gymorth mawr i'r AGLl a'r gwasanaeth i weld y ward o safbwynt defnyddiwr gwasanaeth a darparodd yr adolygwyr lleyg adborth penodol ar yr amgylchedd gofal a phriodoldeb y wybodaeth sydd ar gael i fenywod. Darparodd yr adolygwyr lleyg fewnbwn i'r adroddiadau tri misol yn ôl i'r Pennaeth Bydwreigiaeth a chymerasant ran yn y gwaith o brawf-ddarllen yr adroddiad cyn ei gyhoeddi.

Roedd Goruchwylwyr Bydwragedd y Bwrdd Iechyd yn hollbwysig yn y broses o sefydlu cyswllt yr AGLl gyda'r Cyngor Iechyd Cymuned ar gyfer ardal Betsi Cadwaladr, fel y gallai Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl fynychu cyfarfod â nhw i godi proffil goruchwyliaeth statudol a rhannu'r model arfaethedig ar gyfer goruchwylio yng Nghymru â nhw.

### 3.2.1 Trosolwg o weithgarwch archwilio'r Awdurdod Goruchwylio Lleol – nodi risgiau a manteision

**Tabl 1 Cynllun Gweithredu Hunanasesu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

**Adroddiad Cynnydd Chwarterol ar Offeryn Cymhwysedd y Tîm ac Argymhellion yr Archwiliad**

| Rhif Safon. | Maen Prawf / Mesur | Camau Gwella Arfaethedig Goruchwylwyr Bydwragedd y Bwrdd Iechyd | Rhif Safon | Maen Prawf / Mesur | Camau Gwella Arfaethedig Goruchwylwyr Bydwragedd y Bwrdd Iechyd |
|---|---|---|---|---|---|
| **1** | Gofyn am safbwyntiau a phrofiadau bydwragedd ar oruchwyliaeth statudol.<br><br>**CYMEDROL** | Yn 2013, cafodd holiadur i geisio barn a phrofiadau bydwragedd ynglŷn â goruchwyliaeth statudol ei ddosbarthu i bob bydwraig trwy gyfrwng e-bost, ac roedd copïau caled yn cael eu darparu ym mhob ardal glinigol yn perthyn i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae 21% o fydwragedd wedi cwblhau holiaduron. Goruchwylwyr Bydwragedd i gyhoeddi adroddiad gwerthuso i bwyllgorau llywodraethu perthnasol. | **9** | Trefnir cyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwragedd rheolaidd i rannu gwybodaeth a chaiff y trafodion eu cofnodi<br><br>**CRYF** | Amserlen a fformat cylch gorchwyl i gael eu hailystyried er mwyn sicrhau cymaint o ymgysylltiad a phresenoldeb â phosibl mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. Os nodir patrwm o ran gofynion yn cystadlu rhwng y swyddogaeth Goruchwylydd Bydwragedd a'r brif swydd, bydd adroddiad eithriad yn cael ei ffeilio gyda'r AGLl yn dilyn y cyfarfod a fethwyd (model FPS dan ystyriaeth) |
| **2** | Cyflawnir gweithgareddau goruchwylio cyfrinachol mewn ystafell sy'n sicrhau preifatrwydd.<br><br>**CRYF** | Pob Goruchwylydd Bydwragedd i baratoi ar gyfer y model DGD sydd yn yr arfaeth trwy ddiweddaru / archifo cofnodion Goruchwylwyr Bydwragedd fel eu bod yn barod i'w trosglwyddo. | **10** | Mae dulliau effeithiol ar waith i sicrhau bod pob Goruchwylydd Bydwragedd yn derbyn gwybodaeth a ddosberthir gan gyrff statudol<br><br>**CRYF** | Dim camau newydd wedi'u cynllunio. |
| **3** | Goruchwylwyr Bydwragedd yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu polisïau a chanllawiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer ymarfer clinigol.<br><br>**CRYF** | Mae Goruchwylydd Bydwragedd yn eistedd fel aelod o'r Grŵp Rheoli Dogfennau Ysgrifenedig. | **11** | Fframweithiau Llywodraethu Clinigol Lleol yn cydnabod goruchwyliaeth statudol bydwragedd yn eu strategaethau.<br><br>**CRYF / CYMEDROL** | Cytunwyd ar siart llif rhwng yr arweinydd risg ar gyfer mamolaeth a'r gwasanaeth goruchwylio sy'n dangos sut y bydd y gwasanaeth goruchwylio yn cael gwybod am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â materion ymarfer. Mae hefyd gwell cysylltiadau rhwng yr arweinwyr risg a'r Goruchwylydd Bydwragedd Cyswllt, ac os caiff materion ymarfer eu nodi ar ôl digwyddiad, maent yn |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | cael eu hadrodd ar lafar ac yn ffurfiol / ysgrifenedig. Mae hefyd polisi Llywodraethu Clinigol ar y gweill sy'n cydnabod y swyddogaeth oruchwylio. |
| **4** | Mae gan bob bydwraig fynediad at ddogfennau canllawiau a pholisïau lleol ar ffurf electronig neu gopi caled.<br><br>**CRYF** | Mae pob polisi yn cael ei ddosbarthu i fydwragedd yn yr ardal glinigol a thrwy gyfrwng e-bost. Mae briffio diogelwch SBAR bob dydd sy'n cynnwys dosbarthu polisïau newydd. Hefyd, mae polisïau newydd yn cael eu hamlygu o fewn sesiynau goruchwyliaeth grŵp ac mewn adolygiadau blynyddol ac yn y cylchlythyr goruchwylio. | **12** | Mae rhyngwyneb rhwng goruchwyliaeth a rheoli risg yn amlwg wrth ymchwilio digwyddiadau critigol<br><br>**CRYF / CYMEDROL** | Mae goruchwylwyr yn cael eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd adolygu Digwyddiadau Difrifol a Digwyddiadau Lleol. Mae goruchwylwyr yn parhau i ddarparu adroddiad ar ganlyniadau i'r rheolwyr / y sefydliad sy'n seiliedig ar adroddiadau ymchwilio. Mae cofnod ymchwiliadau yn cael ei gadw, mae'r gronfa ddata yn cael ei diweddaru yn unol â hynny, ac mae dogfennau yn cael eu lanlwytho. Mae cynrychiolwyr o'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yn mynychu cyfarfodydd lleol fel y cyfarfodydd risg / cardiotocograff (CTG) / marwolaeth amenedigol. Ceir adroddiadau rheolaidd mewn cyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwragedd. |
| **5** | Darperir/mynychir gweithdai sgiliau ac ymarferion i fydwragedd sy'n berthnasol i'w hymarfer fel yr argymhellir gan CEMACH (yr Ymchwiliad Cyfrinachol i Iechyd Mamau a Phlant) ac argymhellion cenedlaethol eraill<br><br>**CRYF** | Mae'r gwasanaeth goruchwylio wedi cefnogi digwyddiadau addysgol yn 2013, er enghraifft y diwrnod astudio normalrwydd / addysg cyn geni / y diwrnod astudio geni yn y dŵr. Ceir tystiolaeth o bresenoldeb mewn ymarferion sgiliau ar y ward esgor ac yn y gronfa ddata o fydwragedd sy'n mynychu hyfforddiant ar draws y Bwrdd Iechyd. | **13** | Caiff canlyniadau ymchwiliadau i ddigwyddiadau critigol eu dosbarthu er mwyn rhoi sail i arferion.<br><br>**CRYF / CYMEDROL** | Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn paratoi cofnodion cyfarfodydd adborth ar ôl ymchwiliadau goruchwylio. Mae cylchlythyr yr AGLl a Goruchwylwyr Bydwragedd y Bwrdd Iechyd yn cael ei ddosbarthu i bob bydwraig trwy gyfrwng e-bost ac yn cael ei gynnwys ar hysbysfyrddau gyda themâu o ddigwyddiadau. Mae'r rhain yn cael eu trafod hefyd mewn goruchwyliaeth grŵp, gan gynnwys cynlluniau gweithredu sydd wedi deillio o adolygiad digwyddiad ac sydd wedi cael eu trafod mewn cyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwragedd fel eitem sefydlog ar yr agenda. |
| **6**<br>**7** | Y Goruchwylwyr Bydwragedd yn cadw cofnodion o weithgareddau Goruchwylio<br>Cynnal a chadw a storio cofnodion goruchwylio mewn ffordd ddiogel | Gweler V2. | **14** | Cynhelir archwiliad o waith cadw cofnodion pob bydwraig yn flynyddol.<br><br>**CRYF** | |
| | | | **15** | Cyhoeddir gwybodaeth sy'n berthnasol i oruchwylio bydwragedd trwy e.e. Cylchlythyrau, bwletinau, gwefannau, e-byst, negeseuon llais | Mae byrddau goruchwylio i'w gweld ym mhob ardal famolaeth. Mae'r hysbysfyrddau yn cael eu diweddaru, ac mae rhifau cyswllt yn cael eu harddangos ar gyfer aelodau o'r cyhoedd. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **CRYF x 2** | | | ac adroddiadau gan yr AGLl, Cyflogwyr a Goruchwylwyr Bydwragedd<br><br>**CRYF** | Parhau i arddangos cylchlythyr yr AGLl. Mae crynodeb gweithredol o Adroddiad Blynyddol yr AGLl yn cael ei ledaenu i'r Bwrdd Gweithredol a grwpiau defnyddwyr. |
| **8** | Darperir cymorth i Oruchwylwyr Bydwragedd yn eu tasgau gweinyddol yn unol â chyllid yr AGLl<br><br>**CRYF** | Mae cefnogaeth weinyddol benodol ar gael am 7.5 awr yr wythnos. Mae cyfrifoldebau yn cynnwys cefnogi cyfarfodydd misol, trefnu diwrnodau i ffwrdd, trefnu cynadleddau a chyfathrebu â thîm cymorth yr AGLl. | **16** | Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn cymryd rhan yn y gwaith o lunio polisïau, gosod safonau a monitro ymarfer ac offer er budd Iechyd a Diogelwch.<br><br>**CRYF / CYMEDROL** | Mae angen defnyddio'r briffio diogelwch dyddiol yn yr ardal glinigol ar ffurf SBAR yn gyson ar draws y maes gwasanaeth, ac mae angen gwell cydymffurfiad â'r gwiriadau dyddiol ar gyfarpar, fel ar y troli dadebru a'r gwaith papur sydd ynghlwm â hyn. Goruchwylwyr i sicrhau bod hyn yn parhau trwy ddefnyddio siart sy'n tystio bod gwiriadau wedi digwydd (gweler y gyriant a rennir). Mae menter calendr misol gwiriadau diogelwch ar y gweill, ac fe ystyrir ei gweithredu yn y cyfarfod Goruchwylwyr Bydwragedd nesaf**.** |
| **17** | Mae'r Goruchwylwyr Bydwragedd yn hysbysu eu cyflogwyr am eu pryderon pan allai adnoddau annigonol beryglu diogelwch y cyhoedd yn y gwasanaethau mamolaeth.<br><br>**CRYF / CYMEDROL** | Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn cyfrannu at y gofrestr risg trwy fynychu cyfarfodydd Ansawdd a Diogelwch a thrwy rhyng-gysylltu â'r Arweinydd Risg, yn arbennig os daw adnoddau annigonol neu fethiannau systemig i'r amlwg wrth ymchwilio i ddigwyddiadau. Mae'r gofrestr risg yn cael ei thrafod fel eitem sefydlog.<br><br>Cynhelir cyfarfodydd misol rheolaidd rhwng y Pennaeth Bydwreigiaeth, Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl a'r Goruchwylydd Bydwragedd Cyswllt i sicrhau y gall goruchwyliaeth statudol weithredu'n iawn. | | | |

**3.2.2** I grynhoi, dangosodd yr archwiliad blynyddol o oruchwyliaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fod y Bwrdd Iechyd wedi bodloni pob un o'r 17 safon a osodwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Roedd un safon ar ddeg (65%) yn cael eu bodloni â thystiolaeth gref, dangoswyd bod pum safon arall (29%) yn cael eu bodloni â thystiolaeth gref i gymedrol, ac o ran un safon (6%) yn unig y cafwyd y dystiolaeth yn gymedrol. Roedd y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd wedi cwblhau hunanasesiad cyn yr ymweliad archwilio a nodwyd camau gwella priodol ganddynt pan roeddent o'r farn bod eu tystiolaeth yn llai cadarn, er mwyn sicrhau bod y safon yn datblygu ymhellach yn ystod y flwyddyn i ddod. Mae'r cynllunio gweithredol hwn yn cefnogi'r Goruchwylwyr Bydwragedd FPS i ganolbwyntio ar yr hyn y mae angen ei wneud fel mater o flaenoriaeth wrth i'r model newydd ymsefydlu.

Mae'r AGLI hefyd wedi cynnal ymweliadau Pyramid tri misol trwy gydol y flwyddyn fel estyniad i'r broses archwilio. Rhoddwyd mynediad rhydd i Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI at feysydd clinigol o ddewis ac fe'i cefnogwyd gan adolygydd lleyg o'r AGLI yn ystod yr ymweliad. Paratowyd amserlen gyfweliadau benodol ymlaen llaw gyda'r adolygydd lleyg gan ganolbwyntio ar yr amgylchedd gofal a gofyn am safbwyntiau menywod a theuluoedd, tra bod Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI yn canolbwyntio ar drafodaethau gydag aelodau staff, diogelwch ar y ward a chadw a storio cofnodion. Ymunwyd â thîm yr AGLI weithiau gan Oruchwylydd Bydwragedd o'r BI a oedd yn gallu gweld y ward o wahanol safbwynt.

Roedd yr AGLI o'r farn bod hwn yn ymarfer defnyddiol iawn ac roedd ganddynt fynediad at lawer mwy o safbwyntiau menywod a bydwragedd na thrwy gynnal un digwyddiad blynyddol. Cymerwyd nodiadau gan bob aelod o'r tîm a bu ôl-drafodaeth ar ddiwedd yr ymweliad i nodi unrhyw feysydd o bryder yr oedd angen eu hamlygu i reolwr y ward neu'r Pennaeth Bydwreigiaeth i fynd i'r afael â nhw'n syth. Paratowyd adroddiad drafft gan Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI o nodiadau'r cyfarfod a'r sesiwn ôl-drafodaeth ac yna fe'i rhannwyd gyda'r tîm ymweld er mwyn sicrhau cywirdeb ffeithiol. Ar ôl ei gytuno, cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pennaeth Bydwreigiaeth gan amlygu meysydd o arfer da a meysydd i'w datblygu.

## 3.3 Arfer Nodedig ac Arloesol

**Chwarter 1 Ysbyty Wrecsam**

**Arfer Da**

- Cafwyd amgylchedd trefnus, glân, taclus a thawel lle'r oedd y staff yn dangos lefel uchel o broffesiynoldeb yn eu gwaith a bod eu hymagwedd tuag at fenywod yn dda.
- Roedd y staff y buom yn siarad â hwy yn wybodus am sut i gysylltu â Goruchwylydd Bydwragedd ac yn gwybod am newidiadau sydd ar ddod o ran goruchwyliaeth.
- Roedd bydwragedd a Goruchwylwyr Bydwragedd yn gwerthfawrogi sesiwn ddysgu amser cinio ddiweddar i drafod materion cyfreithiol a'r ddyletswydd gofal mewn perthynas â genedigaeth heb gymorth meddygol.

**Meysydd i'w gwella**

- Mae lleoliad bwrdd arddangos Goruchwylwyr Bydwragedd yn cyfyngu ar nifer y menywod a staff sy'n gallu gweld yr wybodaeth.
- Mae angen mwy o sicrwydd o ran y broses ar gyfer gwirio cyfarpar a thystiolaeth o well cydymffurfiaeth.

**Chwarter 2 Ysbyty Glan Clwyd**

**Arfer Da**

- Roedd y bwrdd goruchwylio yn fodern, yn dal y llygad ac yn llawn gwybodaeth.
- Mae goruchwylwyr yn gwisgo bathodynnau enw sydd hefyd yn eu nodi fel Goruchwylwyr Bydwragedd. Mae hyn wedi bod yn ddefnyddiol pan mae menywod yn holi am deitl a swyddogaeth Goruchwylydd Bydwragedd.
- Tynnodd bydwragedd sylw at fanteision cael genedigaeth normal mewn gweithdy gyda Denise Walsh a gynhaliwyd ar 13 Awst.

**Meysydd i'w gwella**

- Mae angen i fyrddau arddangos Goruchwylwyr Bydwragedd fod yn gyson ar draws pob ardal yn y Bwrdd Iechyd.
- Mae angen i Oruchwylwyr Bydwragedd a fydd yn gweithio'n amser llawn yn y model diwygiedig fod yn fwy amlwg fel bod staff yn fwy gwybodus o ran newidiadau sydd i ddod.
- Mae angen mwy o sicrwydd o ran y broses ar gyfer gwirio cyfarpar a thystiolaeth o well cydymffurfiaeth.

Cynhaliwyd yr ymweliad archwilio blynyddol yn ystod Chwarter 3, ac felly nid oedd adroddiad Pyramid ar wahân.

**Chwarter 4 Ysbyty Bangor**

**Arfer Da**

- Dywedodd bydwragedd bod yr oruchwyliaeth grŵp yn gyfle ardderchog i gynnal proses eu hadolygiad goruchwylio blynyddol.
- Roedd y ffolder polisïau a chanllawiau yn yr Uned Asesiadau Dydd Cyn Geni wedi'i drefnu'n dda ac yn cynnwys y polisïau mwyaf diweddar i gefnogi'r ystod o atgyfeiriadau cyn geni.
- Roedd yr amgylchedd yn yr Uned Asesiadau Dydd Cyn Geni yn drefnus, tawel a chefnogol i fenywod yno allan o reidrwydd gyda phryderon cynenedigol.

**Meysydd i'w gwella**

- Mae'r ffolder polisïau a chanllawiau yn yr ystafell esgor yn cynnwys hen bolisïau a chanllawiau, sy'n peri risg i glinigwyr. Amlygwyd hyn ar ddiwrnod yr ymweliad Pyramid, a chytunwyd y dylid cael mynediad at bob polisi a chanllaw o'r fewnrwyd.
- Roedd y briffio diogelwch bob dydd wedi'i gynllunio'n dda, ond mae angen dangos ei fod yn cael ei ddefnyddio'n fwy effeithiol. Dylid tynnu sylw at wybodaeth berthnasol fel fforymau wardiau esgor, cyfarfodydd risg a goruchwyliaeth grŵp er mwyn sicrhau bod staff yn ymwybodol am yr hyn sydd ar gael iddynt.
- Mae angen mwy o sicrwydd o ran y broses ar gyfer gwirio cyfarpar a thystiolaeth o well cydymffurfiaeth.

## 4 Cynllun Cysgodi / Trosglwyddo Goruchwyliaeth wedi'i Ddiogelu at y Dyfodol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

| Mater | Camau Gweithredu Gofynnol | Gan Bwy | Erbyn Pryd | Cynnydd / Canlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| Prif swydd Goruchwylwyr Bydwragedd FPS | Ôl-lenwi a chwblhau trosglwyddiad priodol | **Pob Goruchwylydd Bydwragedd DGD** | | **Wedi'u cwblhau** |
| E-bost cyffredinol i bob Goruchwylydd Bydwragedd | Gofyn am anodiad o gronfa ddata'r AGLl a chwblhau cymaint o ASR sydd heb eu cynnal yn ystod y mis nesaf | **Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl JR** | **Gorffennaf 14** | **Wedi'u cwblhau** |
| **Trosglwyddo llwythi achosion Goruchwylwyr Bydwragedd** | Anodi cronfa ddata'r AGLl yn briodol a threfnu cyfarfodydd 1:1 yn ôl y gofyn | **Pob Goruchwylydd Bydwragedd** | **Erbyn dechrau mis Tachwedd** | **Trosglwyddo rhestr o fydwragedd Karen Roberts i Maureen Wolfe ar ddechrau mis Tachwedd** |
| **Rhannu adnoddau presennol** | **Llythyrau am oruchwyliaeth grŵp, posteri ac ati** | **JH, MW, JL** | | **Cwblhau ar i-Share** |
| **Cofnodion cyfredol Goruchwylwyr Bydwragedd** | Llunio cynlluniau lleol ar gyfer canoli'r holl ffeiliau Goruchwylwyr Bydwragedd papur, rhwygo unrhyw ffeiliau lle mae'r fydwraig wedi marw neu wedi bod allan o'r gwasanaeth am fwy na 7 mlynedd<br>Cynllun dros 1 i 2 flynedd i sganio a storio'r holl ffeiliau papur yn electronig a dinistrio copïau papur<br>Cynllunio i drosglwyddo pob copi papur o ddeunydd ymchwilio Goruchwylwyr Bydwragedd i'r AGLl dros 1 i 2 flynedd | **Pob Goruchwylydd Bydwragedd i Oruchwylwyr Bydwragedd FPS** | **31/8/14 ac yn barhaus** | **Yn parhau** |
| **Ymchwiliadau cyfredol** | Dod â'r holl ymchwiliadau a gweithgareddau dysgu cyfredol i ben. Trosglwyddo i Oruchwylwyr Bydwragedd FPS os yw'n briodol lle mae dysgu'n barhaus | **Pob Goruchwylydd Bydwragedd** | **31.7.14** | **Wedi'u cwblhau** |
| Cyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwragedd terfynol | Hwyluso'r broses o rannu camau sydd heb eu cyflawni o gynllun gweithredu Goruchwylwyr Bydwragedd<br>Nodi unrhyw faterion i'r Goruchwylydd Bydwragedd FPS fwrw ymlaen â nhw | **Pob Goruchwylydd Bydwragedd** | | **Wedi'u cwblhau** |
| **Trefniadau cysgodi Goruchwylwyr Bydwragedd** | Pan nad yw cynnydd mor ddatblygedig, bydd angen i bob Bwrdd Iechyd lunio cynllun cysgodi dros dro | **Pob Goruchwylydd Bydwragedd** | | **Wedi'u cwblhau** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | er mwyn caniatáu i drosglwyddiad ddigwydd ar adeg briodol | | | |
| **Rhwydweithio ar draws y Byrddau Iechyd** | Codi proffil Goruchwylwyr Bydwragedd FPS a’r model, i ddechrau’r broses o ddatblygu perthynas i gefnogi gweithio ar draws y Bwrdd Iechyd | Goruchwylwyr Bydwragedd FPS sy’n gweithio gyda Goruchwylwyr Bydwragedd cyfredol a darpar Oruchwylwyr Bydwragedd | | **Yn parhau, ond pawb yn y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol ohoni** |
| Cynyddu amlygrwydd a chodi proffil y model diwygiedig | Cerdded o gwmpas yr amgylchedd mewn lleoliadau acíwt a chymunedol. Goruchwylwyr Bydwragedd FPS i sicrhau bod posteri Cipolwg o’r hyn sy’n newid yn cael eu harddangos ym mhob man clinigol priodol mewn lleoliadau acíwt a chymunedol | **Goruchwylwyr Bydwragedd FPS** | | **Wedi’u cwblhau** |
| **Sesiynau Goruchwyliaeth Grŵp** | Goruchwyliaeth grŵp i gael ei gynllunio tan fis Mawrth 2015<br>Bydwragedd ar bob lefel i gael eu targedu i fynychu grwpiau cyn dyddiad cyflwyno’u Hadolygiad Goruchwylio Blynyddol. | **Goruchwylwyr Bydwragedd FPS** | | **Wedi’u cwblhau** |
| **Hysbysfyrddau Goruchwylwyr Bydwragedd** | Goruchwylwyr Bydwragedd FPS i sicrhau bod pob hysbysfwrdd Goruchwylwyr Bydwragedd yn adlewyrchu’r model newydd ac yn cynnwys digon o wybodaeth am bwy yw’r Goruchwylwyr Bydwragedd gweithredol ym mhob Bwrdd Iechyd, sut i gysylltu â Goruchwylydd Bydwragedd a pham allai menyw neu fydwraig fod eisiau cysylltu â Goruchwylydd Bydwragedd<br>Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLl i weithio gyda Goruchwylwyr Bydwragedd i ddatblygu gludwaith o luniau Goruchwylwyr Bydwragedd FPS ar gyfer yr hysbysfwrdd | **Goruchwylwyr Bydwragedd FPS Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLl** | | **Wedi’u cwblhau** |
| **Llythyrau templed am y newid** | **Bydwragedd**<br>**Bydwragedd Arweiniol ar gyfer Addysg o ran myfyrwyr** | Is-grŵp Goruchwylwyr Bydwragedd FPS Swyddog | | **Wedi’u cwblhau** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Bydwreigiaeth yr AGLl | | |
| Arloesedd o ran Arfer Goruchwylwyr Bydwragedd | Diweddaru cynlluniau gweithredu ar gyfer arloesed o ran arfer ar gyfer yr is-grwpiau canlynol<br>• Bydwragedd dan Hyfforddiant<br>• Ymgysylltu â menywod<br>• Proffil goruchwyliaeth<br>• Defnydd o Gyfryngau Cymdeithasol | Goruchwylwyr Bydwragedd FPS | | |
| System ar-alwad Cymru Gyfan | I gychwyn o 4 Awst 2014<br>Pob Goruchwylydd Bydwragedd FPS i fod wedi profi'r broses mewngofnodi ac allgofnodi<br>Argraffu posteri a'u dosbarthu ymhlith Goruchwylwyr Bydwragedd FPS er mwyn sicrhau bod posteri Ar-alwad wedi eu harddangos ym mhob man clinigol priodol yn ogystal â mannau eraill fel switsfwrdd, meddygfeydd teulu ac ati. | Goruchwylwyr Bydwragedd FPS<br><br>GF<br><br>Goruchwylwyr Bydwragedd FPS | **4.8.14**<br><br>**31.7.14**<br>**28.7.14**<br><br>**1.8.14** | **Wedi'u cwblhau**<br><br><br>**Wedi'u cwblhau** |
| Cynlluniau gwyliau blynyddol | Goruchwylwyr Bydwragedd FPS i nodi a rhannu â'r AGLl gwyliau sydd wedi ei drefnu ar hyn o bryd fel y gellir gwneud trefniadau wrth gefn priodol yn ôl yr angen | **MW** | **Rhoi gwybod i GF ar ddechrau Tachwedd o wyliau blynyddol** | **Wedi'u cwblhau** |
| Cynlluniau datblygu Goruchwylwyr Bydwragedd | Goruchwylwyr Bydwragedd i weithio gyda Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLl i nodi anghenion datblygu pellach fel y gellir nodi adnoddau priodol i gefnogi hyn | Goruchwylwyr Bydwragedd FPS / Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLl | **30.9.14** | |
| Amser gweinyddol rhanbarthol | Mae angen oriau gweinyddol i gefnogi Goruchwylwyr Bydwragedd mewn swyddfeydd LIC lleol | Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLl | **4.8.14** | **Wedi penodi gweithiwr yng Ngogledd Cymru; y Canolbarth a'r De-ddwyrain i'w cytuno** |
| Cynllunio olyniaeth | Ailystyried proses recriwtio'r FPS a nodi anghenion y rhaglen paratoi Goruchwylwyr Bydwragedd ar gyfer mis Hydref 14 | Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLl | **17.9.14** | **Ceisiadau at yr AGLl erbyn diwedd Chwefror 2015** |
| Cyfarfodydd AGLl a Goruchwylwyr Bydwragedd | Ni fydd Goruchwylwyr Bydwragedd FPS yn cael eu galw'n FPS mwyach ond yn troi'n Oruchwylwyr Bydwragedd<br>Trefnu cyfarfodydd wythnosol i fisol | Goruchwylwyr Bydwragedd FPS<br>Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLl | **4.8.14**<br>**31.7.14** | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu darpar Oruchwylydd Bydwragedd gweithredol | Cynllunio diwrnod codi ymwybyddiaeth ar gyfer pob darpar Oruchwylydd Bydwragedd gweithredol i ehangu eu dealltwriaeth o'i swyddogaeth, y rota ar-alwad, swyddogaeth ddiwygiedig y Goruchwylydd Bydwragedd yn unol â Rheolau a Safonau Bydwragedd ac ati. | **Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLI a Goruchwylwyr Bydwragedd gweithredol** | **Hydref 2014** | **Wedi derbyn ceisiadau gan Oruchwylwyr Bydwragedd ar gyfer cyfleoedd cysgodi** |

## 5 Casgliad

Fel yn y gorffennol, mae tîm Goruchwylwyr Bydwragedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi gweithio'n galed i ddarparu goruchwyliaeth o safon uchel. Mae'r broses archwilio flynyddol yn tystio i'w llwyddiannau yn ystod y flwyddyn. Mae Goruchwylwyr Bydwragedd hefyd wedi bod yn amlwg wrth roi arweiniad gweledol a darparu enghreifftiau o arloesi mewn ymarfer, fel y tystia gwobr y Cyfarwyddwr Nyrsio "Sêr y Dyfodol" ar gyfer gweithredu goruchwyliaeth grŵp ers Mehefin 2013. Roedd y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yn rhoi'r cysyniad o oruchwyliaeth grŵp ar waith er mwyn mynd i'r afael ag adolygiadau blynyddol heb eu cynnal. Roedd y Goruchwylwyr Bydwragedd yn gallu rhannu eu dysgu gyda Goruchwylwyr Bydwragedd ledled Cymru wrth lansio dogfennau Adolygiad Goruchwylio Blynyddol ar gyfer Cymru Gyfan ym mis Tachwedd 2013. Mae'r Goruchwylwyr Bydwragedd lleol wedi bod yn ddylanwadol wrth rannu eu profiad a chefnogi'r gwaith o gyflwyno goruchwyliaeth grŵp i bob cwr o Gymru yn y model diwygiedig. Roedd Goruchwylwyr Bydwragedd y Bwrdd Iechyd yn bresennol yng nghynhadledd genedlaethol Swyddogion Bydwreigiaeth Awdurdodau Goruchwylio Lleol y DU, lle'r cyflwynasant seminar i Oruchwylwyr Bydwragedd ar werthuso'r cysyniad o oruchwyliaeth grŵp.

Er nad yw'r newid i'r model FPS wedi bod yn un rhwydd i rai unigolion, croesawyd y cyfle gan bawb gan gefnogi cydweithwyr a gynigiodd eu hunain ar gyfer y model FPS. Mae datblygu cynllun gweithredu hunanasesu da ar gyfer yr archwiliad blynyddol o oruchwyliaeth, yn ogystal â'r cyfraniadau y mae'r tîm cyfan wedi eu gwneud i'r cynllun cysgodi a throsglwyddo wedi rhoi'r Goruchwylwyr Bydwragedd yn y model diwygiedig mewn sefyllfa gref i fwrw ymlaen â rhagor o welliant yn ystod y misoedd nesaf.

Mae'r AGLI yn ddiolchgar i bob Goruchwylydd Bydwragedd, presennol a blaenorol, am eu cyfraniad a'u hymrwymiad i'r ddarpariaeth o oruchwyliaeth statudol a'r cyfraniad y mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn ei wneud i gefnogi bydwragedd i gefnogi menywod. Rydym o'r farn y gall y model goruchwylio diwygiedig yng Nghymru, wedi ei ddarparu gan dîm o Oruchwylwyr Bydwragedd sydd â goruchwyliaeth fel eu hunig swyddogaeth, ddim ond fod er gwell. Rydym eisoes yn gweld canlyniadau gwell o ran cwblhau ymchwiliadau, cydymffurfiad cynyddol â'r broses ASR a llwyddiannau, ac rydym wedi cael llawer o adborth cadarnhaol gan fydwragedd, er y ffaith fod rhywfaint o agwedd negyddol gan rai am ba mor llwyddiannus fyddai'r prosiect.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda'r tîm cyfredol o Oruchwylwyr Bydwragedd i ddangos ymhellach bod goruchwyliaeth yn adnodd gwerthfawr i'r proffesiwn bydwreigiaeth a'i bod wir yn ychwanegu gwerth at y strwythurau llywodraethu sy'n bodoli eisoes. .

**Atodiad A**

## AGLl Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

## Rhaglen yr Archwiliad Blynyddol o Safonau Goruchwylio Bydwragedd

**Dyddiad:** **Dydd Mawrth 7 Ionawr 2014**

**Lleoliad:** **Ymweliad Pyramid Ch3 Ysbyty Glan Clwyd, Bodelwyddan**
**Cyflwyniad Archwiliad yn Faenol Fawr, Bodelwyddan**

| Rhif | Amser | Gweithgaredd |
|---|---|---|
| **1** | 0915 | Cyflwyniad gan dîm adolygu'r AGLI |
| **2** | 0930 | Ymweliad Pyramid Ch3 a Chlinig Gwrando'r AGLI i gadarnhau tystiolaeth yn yr amgylchedd clinigol |
| **3** | 1130 | Coffi a chyrraedd Faenol Fawr |
| **4** | 1200 | Cyflwyniad gan Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI i egluro diben y broses archwilio goruchwyliaeth yn 2013-14 a chyfeiriad goruchwyliaeth yn y dyfodol fel y'i pennwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth<br><br>I'w gwahodd – Y Cyfarwyddwr Nyrsio<br>Pennaeth Bydwreigiaeth<br>Goruchwylydd Bydwragedd Cyswllt<br>Goruchwylwyr Bydwragedd Lleol<br>Cymorth gweinyddol i oruchwylwyr bydwragedd |
| **5** | 1230 | **Cinio Gweithio**<br><br>Cyflwyniad 45 munud gan Oruchwylwyr Bydwragedd lleol i roi golwg cyffredinol gan gynnwys:<br><br>1. Crynodeb o'r cynnydd o ran cyflawni cynllun gweithredol 2013-14<br>2. Mesurau rheoli ar gyfer camau gweithredu â blaenoriaeth sydd heb eu cymryd erbyn diwedd chwarter 4 i lywio cynllun 2014-15<br>3. Enghreifftiau o Arfer Da a chyflawniadau'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd<br>4. Enghreifftiau o'r proffil goruchwylio yn lleol |
| **6** | 1315 | Cwestiynau ac Atebion (15 munud) |
| **7** | 1330 | Tîm Adolygu'r AGLI i grynhoi eu canfyddiadau a drafftio gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad |
| **8** | 1430 | Adborth i'r Goruchwylwyr Bydwragedd, gan gynnwys crynodeb o'r diwrnod a'r camau nesaf |

| | | |
|---|---|---|
| | 1500 | 1:1 Pennaeth Bydwreigiaeth a Goruchwylydd Bydwragedd Cyswllt i adolygu cerdyn sgorio cytbwys Ch3 ar gyfer materion penodol |

## Atodiad B

**Rhestr o Gyfranogwyr y broses Archwilio Blynyddol – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

**Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol** – Rena Cartmell

**Pennaeth Bydwreigiaeth** – Fiona Giraud

**Uwch Reolwr Bydwreigiaeth / Goruchwylydd Bydwragedd** – Sharn Jones

**Uwch Reolwr Bydwreigiaeth / Goruchwylydd Bydwragedd** – Sian Youseff Mohammed

**Uwch Reolwr Bydwreigiaeth / Goruchwylydd Bydwragedd** – Maureen Wolfe

**Uwch Reolwr Bydwreigiaeth / Goruchwylydd Bydwragedd** – Jan Quarmby

**Uwch Reolwr Bydwreigiaeth / Goruchwylydd Bydwragedd** – Liz Jones

**Uwch Reolwr Bydwreigiaeth / Goruchwylydd Bydwragedd** – Gaynor Lloyd

**Goruchwylydd Bydwragedd Cyswllt** – Ruth Carter

**Risg / Bydwraig Llywodraethu / Goruchwylydd Bydwragedd** – Gillian Murnane

**Aelodau'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd**

Joy Coughlin
Sali Williams
Julie Hurford
Jo Lavery
Julie Reeve
Meinir Clayton Evans
Karen Roberts

**Cymorth ysgrifenyddol i'r Goruchwylwyr Bydwragedd** – Lynda Kenway

**Wedi'u cyfarfod gan Dîm yr AGLI**

Bydwragedd yn Ysbyty Glan Clwyd

Bydwragedd dan Hyfforddiant

**Ymddiheuriadau:**

Cyfarwyddwr Nyrsio, Angela Hopkins – wedi'i chynrychioli gan Rena Cartmell